Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain

Rheolau Sefydlog

Cadeirydd
1. Etholir y Cadeirydd gan y Cyngor o blith y Cynghorwyr Cymuned yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn ddinesig.

Is-gadeirydd
2. Bydd y Cyngor yn dewis un o'r Cynghorwyr Cymuned yn Is-gadeirydd. Bydd yr aelod hwnnw/honno yn cynrychioli wardiau Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain yn eu tro.

Cyfarfodydd
3(i) Cynhelir cyfarfodydd o'r Cyngor bob mis, ar wahân i fis Ebrill, Awst a Rhagfyr, am 7.30 yr hwyr, oni phenderfynodd y Cyngor ar ddyddiad ychwanegol neu amser gwahanol mewn cyfarfod cynharach.
(ii) Gall y Cadeirydd alw cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor ar unrhyw adeg.
(iii) Gall pump o'r Cynghorwyr alw cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor ar unrhyw adeg.
(iv) Os yw Aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r Aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis.

Cadeirydd Cyfarfod
4. Caiff y sawl sy'n cadeirio mewn cyfarfod arfer holl alluoedd a dyletswyddau'r Cadeirydd mewn perthynas â threfn y cyfarfod.

Dyletswyddau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol
5. Pan fydd deddf, rheoliad neu orchymyn yn rhoi i Swyddog Priodol y Cyngor swyddau neu ddyletswyddau yn y materion a enwir yma, y Clerc fydd y Swyddog Priodol:

- Derbyn datganiadau derbyn swydd.
- Derbyn a chofnodi datganiadau yn datguddio buddiant personol.
- Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.
- Arwyddo hysbysiadau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
- Derbyn copïau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor.
- Ardystio copiau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor.
- Arwyddo gwysiau i gyfarfodydd y Cyngor.
- Paratoi cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer eu harchwilio gan yr archwilwyr mewnol ac allanol.

6. Mewn unrhyw fater arall, y sawl a enwir gan y Cyngor fydd y Swyddog Priodol, ac oni enwir neb gan y Cyngor, y Clerc.

Cworwm
7. (i) Pum Cynghorydd fydd y cworwm.
(ii) Os na fydd cworwm yn bresennol pan ddaw'r Cyngor ynghyd neu os â nifer y Cynghorwyr sy'n bresennol yn llai na'r cworwm yn ystod cyfarfod, trafodir y busnes nas trafodwyd yn y cyfarfod naill ai yn y cyfarfod nesaf neu ar ddiwrnod a benodir gan y Cadeirydd.

Pleidleisio

8. Pleidleisir yng nghyfarfodydd y Cyngor drwy arddangos dwylo neu, os penderfynir hynny gan y Cyngor, drwy bleidlais gudd.

9. Gall y Cadeirydd bleidleisio fel Cynghorydd ar unrhyw fater, ac os bydd y pleidleisiau ar ryw fater yn gyfartal, rhaid iddo/iddi roi pleidlais fwrw.

10. Rhaid i Gynghorwyr newydd eu hethol arwyddo ffurflen Datganiad Derbyn Swydd cyn gweithredu. Mewn blwyddyn etholiad, dylent wneud hynny yng ngŵydd ei gilydd neu yng ngŵydd y Clerc, cyn dechrau'r cyfarfod. Yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn ddinesig, y busnes cyntaf fydd:

(i) Ethol Cadeirydd.

(ii) Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd neu, os na dderbynnir hwnnw ar y pryd, penderfynu pa bryd i'w dderbyn.

(iii) Os bydd y sawl a etholwyd yn Gadeirydd yn absennol, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod.

(iv) Ethol Is-gadeirydd.

(v) Derbyn Datganiad Derbyn Swydd yr Is-gadeirydd neu, os na dderbynnir hwnnw ar y pryd, penderfynu pa bryd i'w dderbyn.

(vi) Enwebu a phenodi Cynghorwyr i gyrff allanol.

(vii) Penodi pwyllgorau stadudol neu bwyllgorau sefydlog pan fo hynny'n angenrheidiol.

11. Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn ddinesig, bydd angen ystyried a ddylid adolygu cyflog a thelerau'r rhai sydd ar y pryd yn gyflogedig gan y Cyngor.

12. Gall Cadeirydd y cyfarfod neu unrhyw Gynghorydd gynnig newid trefn busnes am resymau brys, ac os mai Cadeirydd y cyfarfod sy'n cynnig, gellir rhoi'r cynnig i bleidlais heb ei eilio, a rhoir cynnig o'r fath i bleidlais heb drafodaeth.

Cynigion a Gyflwynir wedi Rhybudd

13. Ac eithrio fel y darperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig oni fydd y cynigydd wedi rhoi rhybudd am ei eiriad a'i gyflwyno i'r Clerc o leiaf bum niwrnod clir cyn cyfarfod nesaf y Cyngor, oni eithrir trwy ganiatâd y Cadeirydd.

14. Os bydd rhyw gynnig yn ymwneud â maes un o bwyllgorau'r Cyngor, e.e. yr Is-bwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisïau neu Is-bwyllgor Safle'r We, gellir ei gyflwyno (pan fydd wedi ei gynnig a'i eilio) heb drafodaeth i'r pwyllgor hwnnw neu i ryw bwyllgor arall a benno'r Cyngor, ar gyfer adroddiad; eithr os bydd y Cadeirydd yn barnu fod y pwnc yn fater brys, gall ganiatáu ei drafod yn y cyfarfod lle y cynigiwyd ef.

15. Rhaid i bob cynnig neu argymhelliad fod yn berthnasol i ryw gwestiwn y mae gan y Cyngor awdurdod arno, neu sy'n effeithio ar diriogaeth ei awdurdod.

16. Bydd modd ychwanegu materion brys at raglen y cyfarfod ar yr amod eu bod ync ael eu dwyn i sylw'r Clerc cyn y cyfarfod.

Cynigion a Gyflwynir Heb Rybudd

17. Gellir cyflwyno heb rybudd gynigion yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Penodi Cadeirydd i'r cyfarfod.
- Cywiro cofnodion.

▫ Cymeradwyo cofnodion.
▫ Newid trefn y gweithgareddau.
▫ Symud i'r mater nesaf.
▫ Terfynu neu ohirio'r drafodaeth.
▫ Cyflwyno i bwyllgor.
▫ Penodi pwyllgor neu aelodau i bwyllgor.
▫ Derbyn cynigion sy'n codi o adroddiadau neu ohebiaeth neu eitemau eraill a nodir yn rhaglen y cyfarfod.
▫ Mabwysiadu adroddiadau.
▫ Awdurdodi selio dogfennau.
▫ Cyflwyno gwelliant i gynnig.
▫ Rhoi caniatâd i dynnu cynnig neu welliant yn ôl.
▫ Ymestyn yr amser a ganiateir ar gyfer araith.
▫ Ystyried unrhyw gwestiwn yn ymwneud ag un o wasanaethyddion y Cyngor, a hynny heb fod mewn pwyllgor.
▫ Cau'r wasg allan.
▫ Cau'r cyhoedd allan.
▫ Rhoi taw ar Gynghorydd a enwir am gamymddwyn, neu ei anfon o'r cyfarfod.
▫ Rhoi cydsyniad y Cyngor lle bo'r Rheolau Sefydlog yn gofyn am hynny.

Cwestiynau
18. (i) Caiff Cynghorydd ofyn unrhyw gwestiwn i'r Cadeirydd ynglŷn â busnes y Cyngor.
(ii) Caiff Cynghorydd, gyda rhybudd neu heb rybudd, ofyn unrhyw gwestiwn i Gadeirydd Pwyllgor am waith y Pwyllgor sydd gerbron y Cyngor ar y pryd, ond iddo'i ofyn cyn i'r Cyngor orffen ystyried y gwaith hwnnw.
(iii) Caiff pob cwestiwn ei ofyn a'i ateb heb drafodaeth.
(iv) Mae rhyddid gan y sawl y gofynnir y cwestiwn iddo wrthod ateb.
(v) Pryd na ellir yn hwylus ateb rhyw gwestiwn ar lafar, cyfrifir fod yr ateb yn ddigonol os anfonir ef at aelodau'r Cyngor gyda chofnodion y cyfarfod lle gofynnwyd y cwestiwn.

Rheolau Dadl
19. Ni cheir trafodaeth ar y cofnodion ond ynglŷn â'u cywirdeb. Trwy benderfyniad y gwneir cywiriadau yn y cofnodion, a rhaid i'r Cadeirydd eu nodi â llythyren gyntaf ei enw. Ni chaniateir aildrafod penderfyniad gan y Cyngor o fewn tri mis i'r penderfyniad gwreiddiol.

20. (i) Ni chaniateir trafod cynnig na gwelliant heb ei fod wedi ei gynnig a'i eilio.
(ii) Wrth eilio cynnig neu welliant, gall Cynghorydd gadw ei araith hyd adeg ddiweddarach yn y ddadl, ond iddo fynegi'r bwriad i wneud hynny wrth eilio.
(iii) Rhaid i Gynghorydd gyfeirio'i araith at y cwestiwn sydd dan sylw neu at esboniad personol, neu gwestiwn o drefn.
(iv) Rhaid cyflwyno unrhyw sylw o fewn amser rhesymol ac eithrio drwy ganiatâd y Cyngor.
(v) Os mabwysiedir gwelliant, bydd y cynnig gyda'r gwelliant yn disodli'r cynnig gwreiddiol, a gellir cynnig gwelliannau pellach arno.
(vi) Ni cheir cynnig gwelliant pellach hyd nes y ceir gwared â phob gwelliant cynharach (ond gellir, gyda chaniatâd Cadeirydd y cyfarfod, roi rhybudd o fwriad i gynnig gwelliant pellach).

(vii) Bydd hawl i ateb gan gynigydd cynnig neu welliant.
21. (i) Ni cheir trafod dyfarniad y Cadeirydd ar fater o drefn nac ar dderbynioldeb esboniad personol.
(ii) At y Cadeirydd y cyfeirir areithiau Cynghorwyr.
(iii) Os bydd mwy nag un Cynghorydd yn dymuno ymateb, bydd y Cadeirydd yn galw ar un ohonynt i siarad, a rhaid i bawb arall ddistewi a gwrando.

Terfynu Dadl
22. Ar derfyn unrhyw sylw caiff unrhyw Gynghorydd gynnig (heb sylwadau) "bod pleidleisio yn awr ar y cynnig", "bod y drafodaeth yn cael ei gohirio yn awr", neu "fod y cyfarfod yn torri yn awr". Os eilir y cynnig, ac os yw'r Cadeirydd yn barnu bod y cynnig sydd gerbron y Cyngor wedi ei drafod yn ddigonol (ond nid fel arall), rhaid iddo roi'r cynnig i bleidlais ar unwaith. Os derbynnir "bod pleidleisio yn awr ar y cynnig", rhaid iddo alw ar y cynigydd i ateb neu i ildio'i hawl i ateb; ac yn syth wedyn rhaid rhoi'r cynnig i bleidlais. Ni fydd gohirio'r drafodaeth neu'r cyfarfod yn effeithio ar hawl y cynigydd i ateb pan ailgynullir.

Camymddwyn
23. **Gweler Côd Ymddygiad yr Aelodau.**

Hawl i Ateb
24. Bydd gan gynigydd hawl i ateb yn union cyn y rhoir y cynnig i bleidlais. Os cynigir gwelliant, bydd gan gynigydd y gwelliant hawl i ateb cyn y rhoddir y gwelliant i bleidlais. Wedi i'r cynigydd ateb neu ildio'i hawl i ateb, pleidleisir heb ragor o drafodaeth.

Newid Cynnig
25. Os yw eilydd cynnig yn cydsynio, gall cynigydd gynnig gwelliant i'w gynnig ei hun.

Gwariant
26. Rhaid awdurdodi archebion talu arian trwy benderfyniad y Cyngor, a'u harwyddo gan ddau allan o dri Chynghorydd.

27. Yng nghyfarfod mis Chwefror yr ystyrir ceisiadau am gymorth ariannol a rhaid cyflwyno mantolen gyfredol gyda'r cais.

28. Rhaid i arian a glustnodir ar gyfer prosiect arbennig gael ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i arwyddo gan ddau allan o dri Chynghorydd.

Cyfrifon a Datganiad Ariannol
29. O dan ddeddf gwlad rhaid gosod pob cyfrif sydd i'w dalu a phob hawliad ar y Cyngor gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo i'w talu. Mae angen dau allan o dri Chynghorydd a benodir gan y Cyngor i arwyddo bonion a sieciau'r Cyngor, ac mae'n bwysig bod y sieciau wedi cael eu llenwi yn barod cyn i'r Cynghorwyr eu harwyddo.

Buddiant
30. Gweler Côd Ymddygiad yr Aelodau a ddiwygiwyd yn 2014, ac hefyd ffurflenni o Fuddiant Personol i aelodau'r Cyngor eu llenwi fel bo'r galw, yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Canfasio Cynghorwyr
31. (i) Bydd canfasio Cynghorwyr neu aelodau unrhyw bwyllgor yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, am unrhyw benodiad dan y Cyngor, yn anghymwyso'r ymgeisydd am y penodiad. Rhaid i'r Clerc roi gwybod i bob ymgeisydd am ofynion y Rheol Sefydlog hon.
(ii) Gall Cynghorydd roi geirda ysgrifenedig am allu, profiad neu gymeriad ymgeisydd a'i gyflwyno i'r Cyngor gyda chais am benodiad ond ni chaiff ddangos ffafriaeth annheg i ymgeisydd penodol.
(iii) Os bydd ymgeisydd am unrhyw benodiad dan y Cyngor yn gwybod ei fod yn perthyn i unrhyw Gynghorydd neu Swyddog, rhaid iddo ef a'r sawl y mae'n perthyn iddo ddatguddio'r berthynas mewn ysgrifen i'r Clerc yn y pwyllgor. Ni fydd ymgeisydd sydd heb ddatguddio perthynas yn gymwys i'w benodi.

Archwilio Dogfennau
32. Caiff Cynghorydd (i ddiben ei ddyletswydd fel Cynghorydd, ac i'r diben hwnnw'n unig) archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cyngor neu ryw bwyllgor, ac os oes copïau ar gael, caiff, ar ei gais, gopi i'r diben hwnnw.

33. (i) Bydd yr holl gofnodion cyfarfodydd a gedwir gan y Cyngor a chan ei bwyllgorau, yn agored i'w harchwilio gan unrhyw Gynghorydd.

(ii) Bydd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'w harchwilio gan unrhyw etholwr Llywodraeth Leol yn y gymuned. Codir tâl pan mae hynny'n briodol.
(iii) Bydd manylion cyswllt y Clerc a holl aelodau'r Cyngor yn cael eu harddangos yn Neuaddau Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain ac ar safle gwe y Cyngor.

Gweithgarwch heb Awdurdod
34. Ni chaiff unrhyw Gynghorydd nac aelod o bwyllgor
▫ Archwilio unrhyw dir neu adeiladau y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w harchwilio
na
▫ Roi gorchmynion na chyfarwyddiadau yn enw'r Cyngor neu ar ei ran, onis awdurdodwyd ef/hi i wneud hynny gan y Cyngor neu'r pwyllgor priodol.

Mynediad y Cyhoedd a'r Wasg i Gyfarfod
35. Rhaid i'r cyhoedd a'r wasg gael mynediad i bob cyfarfod o'r Cyngor a'i bwyllgorau: ond gall cyfarfod gau allan y cyhoedd neu'r wasg neu'r ddau, dros dro, drwy'r penderfyniad hwn
"Yn wyneb natur arbennig a/neu gyfrinachedd y mater sydd i'w drafod, mae'n ddymunol er budd y cyhoedd gau allan y cyhoedd a/neu'r wasg dros dro"
a gorchmynnir iddynt ymadael.

36. Rhaid i'r Clerc drefnu ar gyfer y wasg gyfleusterau rhesymol at wneud eu nodiadau am unrhyw weithrediadau lle y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol.

37. Os bydd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn torri ar drefn unrhyw gyfarfod, gall y Cadeirydd, wedi rhoi rhybudd, orchymyn gwacáu'r rhan honno o'r ystafell sy'n agored i'r cyhoedd.

Materion Cyfrinachol
38. Ni chaiff unrhyw Gynghorydd ddatguddio i'r cyhoedd unrhyw fater y bydd y Cyngor yn datgan ei fod yn gyfrinachol.
Contractau

39. (i) Pan fwriedir rhoi gwaith allan i dendr, bydd rhaid anfon am brisiau at o leiaf dri ymgymerwr cymeradwy.
(ii) Rhaid i'r hysbysiad nodi natur gyffredinol y contract a fwriedir ac hefyd roi enw a chyfeiriad y sawl y mae tendrau i'w hanfon iddo, a'r dyddiad a'r amser olaf y dylai'r tendrau hynny gyrraedd hwnnw yn nhrefn arferol y post.
(iii) Os na dderbynnir tendrau, neu os yw pob tendr yr un fath, gall y Cyngor wneud y trefniadau a farno'n addas ar gyfer y gwaith.

Polisi Iaith
40. **Gweler Polisi Iaith y Cyngor.**

Cyfrifoldebau i Ddarparu Gwybodaeth
Gweler hefyd reol sefydlog 43.

42. (i) Yn unol â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i gynllun cyhoeddiadau ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd ym meddiant y Cyngor.

Cyfrifoldebau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data
(Nid yw'r rhestr isod yn hollgynhwysol).
Gweler hefyd reol sefydlog 41.

43. (i) Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.
(ii) Bydd gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i unigolyn sy'n defnyddio hawliau statudol ynghylch ei ddata/data personol.
(iii) Bydd gan y Cyngor bolisi ysgrifenedig ar gyfer ymateb i a rheoli achos o dorri amodau trin data personol.
(iv) Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r holl achosion o dorri amodau trin data personol yn cynnwys y ffeithiau ynghylch yr achos o dorri amodau trin data personol, ei effeithiau a'r camau lliniarol a gymerwyd.
(v) Bydd y Cyngor yn gofalu fod yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ei hysbysiad(au) preifatrwydd mewn ffurf hygyrch hwylus a'i bod yn cael ei chadw'n gyfredol.
(vi) Bydd y Cyngor yn cadw cofnod ysgrifenedig o'i weithgarwch prosesu.

Newid, Diddymu ac Atal Rheolau Sefydlog
44. Gellir atal unrhyw ran o'r Rheolau Sefydlog ar gyfer unrhyw fater penodol trwy benderfyniad deuparth o aelodau'r Cyngor sydd yn bresennol.

45. Pan gynigir newid Rheol Sefydlog yn barhaol neu ei diddymu, wedi eilio'r cynnig, caiff y mater ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

Hawl Etholwyr i Siarad mewn Cyfarfod
46. Ni fydd gan Etholwyr hawl i gymeryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor.

47. Bydd gan Etholwyr hawl i annerch y Cynghorwyr ar ddechrau unrhyw gyfarfod ar bwnc arbennig yn ddibynnol ar:

- roi rhybudd i'r Clerc o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.
- ganiatâd y Cadeirydd.
- na fydd yr anerchiad yn para'n hwy na 3 munud.
- fod eu henwau ar restr Etholwyr y Gymuned.

Bydd y Rheolau Sefydlog yn cael eu diweddaru bob pedair blynedd neu ynghynt na hynny yn sgîl rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y Rheolau Sefydlog.